# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

# Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

# Ysgol Bro Plenydd

**Y Ffôr,**
**Pwllheli,**
**Gwynedd**
**LL53 6UP**

**Rhif yr Ysgol: 6612048**
**Dyddiad yr Arolygiad: 25/02/09**
**gan**
**Huw Watkins**
**79523**

**Dyddiad Cyhoeddi: 01/05/09**
**O dan rif contract Estyn: 1108908**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.**

122 Hyrwyddir y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol yn dda iawn. Darperir gwasanaethau cyd-addoli sy'n cydymffurfio â'r gofynion ac sydd wedi eu seilio'n gadarn ar egwyddorion Cristnogol. Arweinir y gwasanaethau'n aml gan weithiwr crefyddol. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ac i gyfrannu'n hyderus mewn gwasanaethau ysgol-gyfan.

124 Mae'r ysgol yn gymuned glos a gofalgar ac mae gan ei disgyblion ymdeimlad clir o berchnogaeth a chyfrifoldeb tuag at yr ysgol a'i hamgylchedd. Mae'r ymdeimlad ac ymwybyddiaeth o werthoedd cytûn, o barch at eiddo a chyd-ddyn yn treiddio trwy'r ysgol ac yn cael eu hannog yn feunyddiol. Mae'r athrawon a'r holl oedolion eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn fodelau rôl gwych ac mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais i'w gilydd, i oedolion ac ymwelwyr. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol.

125 Caiff y ddarpariaeth fanwl ar gyfer datblygu Addysg Bersonol a Chymdeithasol disgyblion ei chynnwys yn ofalus yn y cwricwlwm. Mae'r cyfnodau amser cylch ac *Ysgol Deina,* lle ceir cyfle i drafod materion sensitif mewn awyrgylch gynhaliol, yn gwneud cyfraniad rhagorol tuag at ehangu dealltwriaeth disgyblion o faterion moesol yn ogystal â hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol.

134 Hyrwyddir ymwybyddiaeth disgyblion o'r angen i ymddwyn yn gynaliadwy ac am faterion cadwraeth yn dda. Mae disgyblion yn frwd wrth ail-gylchu papur, ffônau a chardiau Nadolig. Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd cefnogi gweithgareddau masnach deg. Datblygir ymwybyddiaeth disgyblion o'u cyfrifoldeb o fod yn perthyn i gymuned fyd-eang drwy eu hymdrechion i godi arian at amrywiol elusennau cenedlaethol a rhyngwladol megis *Operation Christmas Child* ac wrth noddi merch yn Afghanistan.